



Cwestiwn enghreifftiol a thrafodaeth ar yr ateb SQE2

Dadansoddiad o'r achos a'r mater (Ewyllysiau a Diewyllysedd, Gweinyddu ac Ymarfer ym maes Profiant)

Adolygwyd Tachwedd 2025

Bydd ymgeiswyr yn sefyll 16 o asesiadau yn SQE2. Er mwyn pasio SQE2, rhaid i ymgeiswyr gael y marc pasio cyffredinol ar gyfer SQE2.

Mae'r cwestiwn enghreifftiol hwn, a thrafodaeth ar yr ateb, yn enghraifft o asesiad dadansoddiad o'r achos a'r mater. Asesiad ar gyfrifiadur yw hwn a bydd gan ymgeiswyr 60 munud i gyflawni'r dasg.

Am ragor o fanylion gweler Manyleb Asesu SQE2.

Sylwer bod y cwestiynau enghreifftiol wedi cael eu darparu er mwyn rhoi syniad o'r math o dasgau y gellid eu gosod i ymgeiswyr. Nid ydynt yn adlewyrchu'r holl ddeunydd sydd wedi'i gynnwys yn SQE2.

Efallai na fydd cwestiynau yn y dyfodol yn dilyn yr un fformat yn union.

Cwestiwn a phapurau ychwanegol i ymgeiswyr

Nodyn i Ymgeiswyr:

Fe welwch fod rhai termau Cymraeg yn yr asesiad hwn yn cael eu dilyn gan y term Saesneg cyfatebol mewn cromfachau. Yn ogystal, mae rhestr eirfa, sydd wedi'i chynnwys, wedi'i ffurfio o'r termau hynny.

E-bost at yr ymgeisydd

Oddi wrth: Partner
Anfonwyd: 5 Tachwedd 202#
At: Ymgeisydd
Pwnc: Jacob Marsh

Rydym wedi cael ein cyfarwyddo'n ddiweddar gan Jacob Marsh. Siaradais â Jacob ddoe a hoffai gael cyngor ar y materion canlynol.

Ymddiriedolaeth Ewyllys Caroline

Bu farw gwraig Jacob, Caroline Marsh, ar 30 Hydref 2024. Roedd Jacob a Caroline wedi bod yn briod ers 12 o flynyddoedd ac nid oedd ganddynt blant gyda'i gilydd. Mae gan Jacob ddwy ferch sy'n oedolion o'i briodas gyntaf, sef Laura a Claire. Roedd gan Caroline ddau fab sy'n oedolion o'i phriodas gyntaf, sef Wayne a Michael.

Mae ystad Caroline wedi'i gweinyddu gan ei hysgutorion, Akhil Gupta a Rebecca Odeje. Maent wedi darparu copi o ewyllys Caroline, sy'n atodedig i'r e-bost hwn. Mae'r ysgutorion newydd gwblhau'r gwaith gweinyddol ac maent bellach yn dal gweddill yr ystad fel ymddiriedolwyr o dan delerau cymal 4 ('Ymddiriedolaeth yr Ewyllys'). Jacob yw un o'r buddiolwyr. Gwerth yr asedau sy'n cael eu dal yw tua £280,000 ac maent yn cynnwys portffolio buddsoddi o stoc a chyfrannau dyfynedig (quoted shares) gwerth £170,000 a chyfrifon banc sy'n cynnwys £110,000.

Hoffai Jacob ddeall ychydig yn fwy am ei hawliau yn unol ag Ymddiriedolaeth yr Ewyllys. Yn benodol:

- Mae e'n ystyried gofyn i'r ymddiriedolwyr roi cyfandaliad (lump sum) iddo o £30,000, y mae e'n bwriadu ei ddefnyddio i wneud gwaith gwella i'w dŷ. (Jacob yw unig berchennog y tŷ hwn.) Soniodd Jacob am y gwaith i'w lysblant, mae e'n dod ymlaen yn dda gyda nhw fel arfer, ac felly cafodd ei synnu a'i siomi i dderbyn yr e-bost atodedig gan Wayne.
- Mae'n dymuno gwybod a yw'n bosibl newid ei ewyllys ef ei hun a gadael ei fuddiant yn Ymddiriedolaeth yr Ewyllys i Laura a Claire pan fydd e'n marw.

Treth Etifeddiant ar rodd oes (lifetime gift) arfaethedig

Enghraifft: dadansoddiad o'r achos a'r mater
(cwestiwn a phapurau ychwanegol i ymgeiswyr)

Yn ogystal anfonodd Jacob e-bost ataf ddoe (sy'n atodedig), a oedd yn gofyn am gyngor Treth Etifeddiant ynghylch rhodd oes y mae'n ystyried ei gwneud i'w ferched. Golwg bras yn unig rwyf wedi llwyddo ei roi i'r e-bost hwn, felly bydd yn rhaid i ti ei ddarllen yn ofalus cyn cwblhau dy ddadansoddiad.

Cyngor a dadansoddiad sy'n ofynnol

Rwyf wedi trefnu i weld y cleient yr wythnos nesaf. Cyn ein cyfarfod, rwyf yn bwriadu anfon llythyr ato sy'n cynnwys cyngor cychwynnol ar y cwestiynau a restrir isod. Hoffwn i ti baratoi adroddiad y gallaf ei ddefnyddio i gyfeirio ato wrth i mi baratoi fy llythyr.

Ysgrifenna adroddiad i mi gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir yn yr e-bost hwn a'r atodiadau. Dylet sicrhau bod dy gyngor a'th ddadansoddiad yn cyfeirio at y cwestiynau canlynol:

1. Mewn perthynas ag Ymddiriedolaeth Ewyllys Caroline:

- a) I ba raddau gall ymddiriedolwyr ddarparu cymorth ariannol i Jacob mewn perthynas â'i gynlluniau i wneud gwelliannau i'r tŷ?**
- b) A allai Jacob adael ei fuddiant yn Ymddiriedolaeth yr Ewyllys i'w ferched yn ei ewyllys?**

2. Beth dylem ni ei gynghori i Jacob mewn perthynas â'r rhodd oes arfaethedig?

Nid yw'n ofynnol i ti ystyried unrhyw faterion treth personol nac ymddiriedolaethol mewn perthynas â chwestiwn 1 am Ymddiriedolaeth yr Ewyllys.

Diolch

Partner

ATODIADAU:

- 1. Copi o ewyllys Caroline Marsh (darn yn unig)
- 2. E-bost gan Wayne Jones
- 3. E-bost gan Jacob Marsh

Nodyn i Ymgeiswyr:

Enghraifft: dadansoddiad o'r achos a'r mater (cwestiwn a phapurau ychwanegol i ymgeiswyr)

Nid oes rhaid i chi ymdrin â materion gofal cleientiaid (gan gynnwys costau) na materion gwyngalchu arian.

Peidiwch â nodi'ch enw ar dempled yr ateb.

DIWEDD

Rhestr eirfa ar gyfer Ewyllysiau>Dadansoddi'r Achos a'r Mater

Cymraeg	Saesneg
blaenswm	advance
blaenswm cyfalaf	advancement of capital
buddiant breiniedig	vested interest
buddiolwyr gweddilliadol	remainder beneficiaries
cyfandaliad	lump sum
cyfrannau dyfynedig	quoted shares
(yn) ddiamod	absolutely
pwerau disgresiynol datganedig	express discretionary powers
rhodd gydag amod cadw budd	gift with reservation of benefit - 'GROB'
rhodd oes	lifetime gift

DIWEDD

Atodiad 1

Copi o ewyllys Caroline Marsh (darn yn unig)

Dyma fy ewyllys olaf i **CAROLINE MARSH** o 45 Sunny Lane Lerpwl L3 5TG

1. Diddymaf yr holl Ewyllysiau a Chodisiliau blaenorol a wnaed gennyf i
2. Penodaf **Akhil Gupta** o Howden Solicitors 137 Main Street Lerpwl L1 8KL a'm ffrind **Rebecca Odeje** o 12 Long Down Lane Lerpwl L5 7GH ar y cyd i fod yn ymddiriedolwyr ac ysgutorion fy ewyllys (fy 'Ymddiriedolwyr')
3. Yn unol â thalu fy nyledion angladdol a'm treuliau testamentaidd rhoddaf fy holl ystad eiddo a phersonol nas gwaredir fel arall drwy hyn na thrwy unrhyw godisil (y 'Gronfa Ymddiriedolaeth') i'm Hymddiriedolwyr i'w dal ar ymddiriedolaeth
4. Rhaid i'm Hymddiriedolwyr ddal y Gronfa Ymddiriedolaeth ar yr ymddiriedolaethau canlynol:
 - 4.1 I dalu incwm y Gronfa Ymddiriedolaeth i'm gŵr **Jacob Marsh** ('Tenant Oes') am oes
 - 4.2 Yn unol â chymal 4.3, yn ystod oes y Tenant Oes, gall yr Ymddiriedolwyr yn ôl eu disgresiwn hwy dalu i'r Tenant Oes er ei fudd ef unrhyw gyfalaf o'r Gronfa Ymddiriedolaeth
 - 4.3 Ni all cyfanswm gwerth y cyfalaf a delir i'r Tenant Oes yn ystod ei oes ef yn unol â chymal 4.2 gynrychioli mwy na 30% o werth y Gronfa Ymddiriedolaeth (caiff y swm hwnnw ei bennu drwy gyfeirio at werth y Gronfa Ymddiriedolaeth ar adeg ei throsglwyddo i'm Hymddiriedolwyr o dan gymal 3)
 - 4.4 Yn unol â chymalau 4.1–4.3, pan fydd buddiant y Tenant Oes yn dod i ben rhaid i'm Hymddiriedolwyr ddal y Gronfa Ymddiriedolaeth ar ymddiriedolaeth i'm meibion **Wayne Jones** a **Michael Jones** mewn cyfrannau cyfartal yn ddiamod (absolutely)
5. Mae Atodlen 1 yn ffurfio rhan o'r ewyllys hon ac mae mewn grym fel a bennwyd yn llawn yng nghorff yr ewyllys hon ac mae unrhyw gyfeiriad at yr ewyllys hon yn cynnwys Atodlen 1
6. Wrth ymarfer eu pwerau yn unol â'r ewyllys hon nid oes yn rhaid i'r Ymddiriedolwyr ystyried buddiannau unrhyw fuddiolwr ac eithrio'r Tenant Oes

...

Atodlen 1

...

12. Y pŵer i roi benthyciadau

Gall fy Ymddiriedolwyr roi benthyciadau i unrhyw fuddiolwr o'r Gronfa Ymddiriedolaeth ar unrhyw delerau maent yn eu hystyried i fod yn briodol (gan gynnwys benthyciadau di-log ac ansicredig)

13. Cydnabyddiaeth i ymddiriedolwyr

Mae gan ymddiriedolwr sy'n gweithredu mewn rhinwedd broffesiynol yr hawl i dderbyn cydnabyddiaeth resymol o'r Gronfa Ymddiriedolaeth am unrhyw wasanaethau maent yn eu darparu i neu ar ran yr ymddiriedolaeth

14. Deddf Ymddiriedolaethau Tir a Phenodi Ymddiriedolwyr 1996

Nid yw Adran 11 o Ddeddf Ymddiriedolaethau Tir a Phenodi Ymddiriedolwyr 1996 (sy'n rhoi rhwymedigaeth ar ymddiriedolwyr tir i ymgynghori â buddiolwyr penodol a gwireddu eu dymuniadau) yn berthnasol i'm Hymddiriedolwyr

...

Dyddiedig y diwrnod hwn y *10fed* diwrnod o Fedi 2016

Llofnodwyd gan y dywededig **CAROLINE MARSH**

Caroline Marsh

yn ein cyd-bresenoldeb ni ac yna gennym ni yn ei phresenoldeb hi

Lindsey Jones

34 Powerscroft Street
Manceinion
M17 3LP

Terry Jones

34 Powerscroft Street
Manceinion
M17 3LP

Nodyn i Ymgeiswyr:

Dyma ddarn o gopi o'r ewyllys dilys wreiddiol a gyflwynwyd i brofiant.

Dim ond cymalau 1–6 a pharagraffau 12–14 o Atodlen 1 o'r ewyllys sydd wedi'u

hatgynhyrchu. Gallwch gymryd yn ganiataol nad oes gan unrhyw gynnwys sydd wedi'i hepgor unrhyw berthnasedd at ddibenion yr asesiad hwn.

DIWEDD

Atodiad 2

E-bost gan Wayne Jones

Oddi wrth: Wayne Jones
Anfonwyd: 24 Hydref 2025
At: Jacob Marsh
Pwnc: Gwaith adeiladu

Annwyl Jacob,

Gobeithio bod pob dim yn iawn gyda thi.

Roeddwn i am ysgrifennu i esbonio sut rwy'n teimlo am yr ymddiriedolaeth o dan ewyllys Mam.

Rwy'n gwybod ein bod ni gyd wedi'i chael hi'n anodd dod i dderbyn ei marwolaeth, ond mae wedi bod yn arbennig o anodd i Michael a minnau.

Rwy'n gobeithio na fyddi di'n cymryd hwn yn y ffordd anghywir, ond rwy wedi meddwl am yr hyn a ddywedaist ti'n ddiweddar am ymddiriedolaeth Mam yn talu am dy waith adnewyddu'r tŷ, a dw i ddim yn meddwl bod hyn yn syniad da. Yn bersonol, dw i ddim yn deall pam y dylai'r ymddiriedolaeth dalu am waith adnewyddu dy dŷ pan fydd cynilion gen ti dy hun y gallet ti eu defnyddio. Mae hefyd i'w weld yn rhy gynnar ers marwolaeth Mam i fod yn gwneud y fath brosiect! Petawn ni i gyd yn cymryd symiau mawr o arian allan o'r ymddiriedolaeth, fyddai hi ddim yn cymryd yn hir i'r holl arian ddiflannu, ac rwy'n siŵr mai nage hynny y byddai Mam wedi'i eisiau.

Ta waeth, roeddwn i'n meddwl mai'r peth gorau fyddai bod yn onest gyda thi. Rwy'n hapus siarad am hyn wyneb yn wyneb os wyt ti'n meddwl y byddai hynny'n ddefnyddiol.

Cofion gorau,

Wayne

DIWEDD

Atodiad 3

E-bost gan Jacob Marsh

Oddi wrth: Jacob Marsh
Anfonwyd: 4 Tachwedd 2025
At: Partner
Pwnc: Rhoddion i'm plant

Annwyl Bartner,

Gobeithio bod pob dim yn iawn gyda chi.

Rwyf wedi gofyn yn ddiweddar am eich help gyda threfniant ymddiriedolaeth o dan ewyllys fy ngwraig, ond roeddwn i'n gobeithio y byddech chi hefyd yn gallu fy nghynghori mewn perthynas â'm hystad i fy hun.

Mae marwolaeth Caroline wedi gwneud i mi feddwl yn ofalus am fy sefyllfa bersonol. Mae gen i ewyllys sy'n gadael y rhan fwyaf o'm hystad i Laura a Claire, ond hoffwn i gael eich barn am syniad sydd gen i mewn perthynas â'm tŷ.

Rwyf am leihau swm y Dreth Etifeddiant a fydd yn ddyledus ar ôl fy marwolaeth. Mae rhywun wedi dweud wrthyf os byddwch chi'n rhoi rhai o'ch asedau i ffwrdd tra byddwch yn fyw gall hyn arbed Treth Etifeddiant pan fyddwch chi'n marw, ar yr amod eich bod chi'n byw am saith blynedd wedi hynny. Mae gen i rywfaint o gynilion, a gallwn i wneud ambell rodd ariannol, ond rwy'n ffit ac yn iach (ac yn hyderus y byddaf yn goroesi am sawl blwyddyn i ddod!). Byddai'n well gen i beidio â rhoi llawer o'r arian hwn i ffwrdd rhag ofn y bydd ei angen arnaf yn ddiweddarach. Fodd bynnag, byddwn yn hapus i drosglwyddo fy nhŷ (sydd â gwerth o ychydig yn fwy nag £1 miliwn) i enw fy ddwy ferch nawr, fel rhywbeth yn lle rhoi arian parod. O leiaf fel hynny ni fyddaf yn berchen ar ased mor werthfawr.

Petawn i'n trosglwyddo fy nhŷ i'm merched, byddwn i eisïau parhau i fyw yno. Rwy'n ymddiried yn gyfan gwbl yn fy merched ac yn gwybod na fyddant byth yn gofyn i mi adael fy nghartref! Maent yn hapus yn byw yn eu tai eu hunain ta beth. Dim ond syniad yw hyn am y tro ond byddai'n ddefnyddiol cael eich barn arno.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yr eiddoch yn gywir,

Jacob

DIWEDD

Trafodaeth ar yr ateb

PWYNTIAU CYFREITHIOL ALLWEDDOL

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

Sylwer nad oes angen union ddyfyniadau (e.e. darpariaethau Deddf Ewyllysiau 1837 neu Ddeddf Treth Etifeddiant 1984).

I ba raddau gall yr ymddiriedolwyr ddarparu cymorth ariannol i Jacob mewn perthynas â'i waith arfaethedig i wella'r tŷ?

- Jacob yw'r tenant oes sydd â hawl i'r incwm a gynhrychir gan y gronfa ymddiriedolaeth.
- Nid oes gan Jacob unrhyw hawl i gyfalaf yr ymddiriedolaeth ac nid oes unrhyw rwymedigaeth ar yr ymddiriedolwyr i roi arian iddo y tu hwnt i incwm yr ymddiriedolaeth.
- Mae gan yr ymddiriedolwyr bwerau disgresiynol datganedig (express discretionary powers) i roi cyfalaf i Jacob fel blaenswm (advance) neu roi benthg cyfalaf iddo.
- Mae'r pŵer i roi cyfalaf fel blaenswm yn gyfyngedig i 30% o'r gronfa ymddiriedolaeth.
- Gellir rhoi benthyciadau'n ddi-log ac ar unrhyw delerau a bennir gan yr ymddiriedolwyr.
- Nid oes angen i'r ymddiriedolwyr ystyried buddiannau'r buddiolwyr eraill wrth benderfynu ymarfer eu pwerau ai peidio.

A allai Jacob adael ei fuddiant yn Ymddiriedolaeth yr Ewyllys i'w ferched yn ei ewyllys?

- Mae buddiant oes Jacob yn dod i ben ar ei farwolaeth ef felly ni all ei adael yn ei ewyllys.
- Mae'r cyfalaf yn pasio i'r buddiolwyr gweddilliadol (remainder beneficiaries), Wayne a Michael.

Pa gyngor dylem ni roi i Jacob mewn perthynas â'r rhodd oes arfaethedig?

- Os bydd Jacob yn rhoi ei dŷ i'w ferched ond yn parhau i fyw yno'n ddi-rent, bydd yn gwneud rhodd gydag amod cadw budd (gift with reservation of benefit - 'GROB').
- Caiff gwerth y tŷ ar ddyddiad ei farwolaeth ei gynnwys yn ei ystad ac ni fydd unrhyw arbedion treth etifeddiant (IHT). Dylid cynghori Jacob yn erbyn hyn.
- Ni fydd yn GROB os bydd Jacob yn talu rhent y farchnad i'w ferched.

ENGHRAIFFT O ATEB

Darperir ateb enghreifftiol isod. Mae'r ateb hwn yn enghraifft o ymgeisydd a fyddai'n cael ei asesu fel un sy'n llwyddo yn y gofynion cymhwysedd yn glir yn yr asesiad dadansoddiad o'r achos a'r mater. Nid yw'r ateb hwn yn berffaith nac yn ateb delfrydol ac mae pwyntiau pellach y gellid bod wedi'u gwneud.

Crynodeb

Rwyf ti wedi gofyn i mi baratoi adroddiad sy'n ystyried sawl cwestiwn a godwyd gan ein cleient, Jacob Marsh. Jacob yw tenant oes ymddiriedolaeth a sefydlwyd gan ewyllys ei ddiweddar wraig, Caroline Marsh. Mae e eisiau cael ein cyngor ynghylch a all ef dderbyn cymorth ariannol o'r gronfa ymddiriedolaeth yn ystod ei oes ac a all ei fuddiant yn y gronfa ymddiriedolaeth gael ei adael i'w blant ar adeg ei farwolaeth. Ar wahân i hynny, mae hefyd wedi gofyn i ni ystyried goblygiadau treth etifeddiant (IHT) y rhodd oes arfaethedig o'i dŷ. Rwyf wedi ystyried pob un o'r materion isod.

Gwybodaeth gefndirol

Mae ystad Caroline yn cael ei dal ar ymddiriedolaeth yn unol â chymal 4 o'i hewyllys. Jacob yw'r tenant oes ac mae ei lysblant (meibion Caroline), Michael a Wayne, yn fuddiolwyr gweddilliadol (mewn cyfrannau cyfartal).

Gwerth y gronfa ymddiriedolaeth yw tua £280,000. Nid ydym ni wedi derbyn gwybodaeth am y swm o incwm a gynhyrchwyd gan y gronfa ymddiriedolaeth. Dyma rywbeth y gallai fod yn rhaid i ni wirio gyda'r cleient.

Mae gan Jacob berthynas da â'i lysfeibion, Michael a Wayne. Hefyd mae ganddo ddwy ferch, Laura a Claire. Mae'n bwriadu gadael y rhan fwyaf o'i ystad ei hun i Laura a Claire. Nid oes gennym ni fanylion llawn am ystad y cleient ar hyn o bryd, ond mae e wedi dweud wrthym ni fod ganddo dŷ (a ddelir yn ei enw ef ei hun yn unig) sydd â gwerth o ychydig yn fwy nag £1 miliwn.

Dadansoddiad o gwestiynau'r cleient

1. Pwerau ymddiriedolwyr mewn perthynas â Jacob

Mae Jacob yn bwriadu gwneud gwaith gwella i'w dŷ ac mae'n ystyried gofyn i'r ymddiriedolwyr am daliad cyfandaliad (lump sum) o £30,000 i ariannu'r gwaith hwn.

Fel tenant oes y gronfa ymddiriedolaeth, nid oes gan Jacob fuddiant breiniedig (vested interest) yng nghyfalaf y gronfa ymddiriedolaeth, felly nid oes gan yr ymddiriedolwyr unrhyw rwymedigaeth i ganiatáu'r cais hwn.

Fodd bynnag, o dan gymal 4.2, mae gan yr ymddiriedolwyr y pŵer i dalu'r cyfalaf iddo. Mae cymal 4.3 yn cyfyngu hyn i 30% o gyfanswm y cyfalaf. Dylem ni wirio faint oedd gwerth y gronfa ymddiriedolaeth pan gafodd ei throsglwyddo am y tro cyntaf i'r ymddiriedolwyr, oherwydd bod y 30% yn cael ei gyfrifo ar y dyddiad hwnnw. Fodd bynnag, 30% o'r gwerth presennol yw £84,000, sy'n ymhell yn fwy na £30,000. Ar hyn o bryd mae gan y gronfa ymddiriedolaeth tua £110,000 mewn arian parod, felly mae gan yr ymddiriedolwyr fynediad at ddigon o arian parod i wneud taliad o £30,000 os ydynt yn dymuno.

Mae talu blaenswm cyfalaf (advancement of capital) yn digwydd yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr, felly ni all Jacob eu gorfodi. Gallai hyn hefyd achosi gwrthdaro â'i lysblant. Rydym wedi gweld e-bost gan Wayne sy'n nodi nad yw'n fodlon â'r cais.

Fel opsiwn amgen, gallai Jacob ofyn i'r ymddiriedolwyr roi benthyg £30,000 iddo. Mae ganddynt y pŵer i wneud hyn o dan baragraff 12, atodlen 1 o'r ewyllys. Efallai y byddai'r llysblant yn hapusach gyda hyn.

2. A all Jacob adael ei fuddiant yn yr ymddiriedolaeth i'w blant drwy ewyllys?

Mae gan Jacob fuddiant yn incwm yr ymddiriedolaeth yn unig. Pan fydd yn marw, mae ei fuddiant yn dod i ben ac mae'r cyfalaf yn breinio yn (vests in) Wayne a Michael. Felly ni fydd ei fuddiant o dan yr ymddiriedolaeth yn rhan o'i ystad ac nid yw'n gallu trosglwyddo drwy ei ewyllys ef. Ni all ei adael i Laura a Claire.

3. Bwriad Jacob i wneud rhodd oes

Mae Jacob hefyd wedi gofyn i ni am gyngor am oblygiadau IHT cynnig i drosglwyddo teitl cyfreithiol ei dŷ i Claire a Laura. Mae e'n ystyried ffyrdd o leihau IHT ar adeg ei farwolaeth ac mae'n ymwybodol y gall fod manteision IHT i wneud rhoddion fwy na saith blynedd cyn marwolaeth. Mae wedi awgrymu trosglwyddo'r tŷ i enwau ei ferched ond mae'n bwriadu parhau i fyw yno.

Dylid cynghori'r cleient na fyddai hyn yn arwain at y manteision treth a fwriedir oherwydd y byddai'n rhodd gydag amod cadw budd ('GROB'). Hyd yn oed os bydd yn goroesi am fwy na saith blynedd, bydd yn rhan o'i ystad drethadwy pan fydd e'n marw.

Byddai modd osgoi rheolau GROB os yw Jacob yn talu rhent marchnad teg i'w ferched, ond dylai gadw mewn cof na fyddai'n berchen ar y tŷ mwyach. Er bod ganddo berthynas da â'i ferched, byddai'n agored i risg pe bai pethau'n newid.

DADANSODDIAD

Pam mae'r ateb enghreifftiol yn pasio'r asesiad yn glir?

Ni fwriedir i'r canllawiau canlynol awgrymu mai dyma'r unig ffordd bosibl o ateb ond bydd yn eich helpu i ddeall pam y byddai'r ateb enghreifftiol yn cael ei ystyried yn un y mae'n glir ei fod wedi pasio yn unol â'r meini prawf asesu ar gyfer yr asesiad.

Meini prawf yr asesiad

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer dadansoddiad o'r achos a'r mater fel a ganlyn:

Sgiliau

1. Nodi ffeithiau perthnasol.
2. Darparu cyngor sy'n canolbwyntio ar y cleient (h.y. cyngor sy'n dangos dealltwriaeth o'r broblem o safbwynt y cleient a'r hyn mae'r cleient am ei gyflawni, nid yn unig o safbwynt cyfreithiol).
3. Defnyddio iaith sy'n glir, yn fanwl gywir, yn gryno ac yn dderbyniol.

Cymhwyso'r gyfraith

4. Cymhwyso'r gyfraith yn gywir at sefyllfa'r cleient.
5. Cymhwyso'r gyfraith mewn modd cynhwysfawr at sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol a defnyddio crebwyll i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll.

Roedd hi'n glir o edrych ar y meini prawf uchod bod yr ateb enghreifftiol yn gymwys am y rhesymau canlynol:

MEINI PRAWF SGILIAU	
Nodi ffeithiau perthnasol	Mae'r ymgeisydd wedi nodi'r ffeithiau allweddol sy'n berthnasol i'r dadansoddiad. Er enghraifft, y ffaith bod Jacob wedi'i enwi fel tenant oes a bod ei lysfeibion yn fuddiolwyr gweddilliadol.
Darparu cyngor sy'n canolbwyntio ar y cleient	Mae'r ymgeisydd yn cynghori'r cleient ar y risg ymarferol o fod yn agored i amgylchiadau newidiol os bydd yn gwneud rhodd oes i'w ferched.
Defnyddio iaith sy'n glir, yn fanwl gywir, yn gryno ac yn dderbyniol	Mae'r ymgeisydd wedi amlinellu'r cyngor a'r dadansoddiad yn glir ac yn gryno, gan ddefnyddio iaith sy'n briodol i bartner, ond sydd hefyd mewn fformat y gellir ei addasu'n rhwydd i'w gyfrannu at lythyr o gyngor i'r cleient.

MEINI PRAWF CYFREITHIOL	
Cymhwyso'r gyfraith yn gywir at sefyllfa'r cleient	Mae'r ymgeisydd wedi nodi'r egwyddorion cyfreithiol sylfaenol perthnasol ac wedi'u cymhwyso'n gywir i ffeithiau achos y cleient. Er enghraifft, mae'r ymgeisydd yn cydnabod bod gan Jacob hawl i incwm ond nid cyfalaf, gan olygu bod ei fuddiant yn dod i ben ar adeg ei farwolaeth ac yn ei atal rhag gadael ei fuddiant ymddiriedolaeth i'w ferched.
Cymhwyso'r gyfraith mewn modd cynhwysfawr at sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol a defnyddio crebwyll i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll	Mae dadansoddiad cyfreithiol yr ymgeisydd yn ddigon manwl yng nghyd-destun achos y cleient. Er enghraifft, mae'r cleient yn cyfeirio at achosion perthnasol yr ewyllys i esbonio pŵer yr ymddiriedolwyr i roi blaenswm cyfalaf i Jacob, ac yn tynnu'r wybodaeth a ddarparwyd am werth y gronfa ymddiriedolaeth i benderfynu a yw hi'n bosibl rhoi blaenswm o'r swm a geisiwyd. Mae'r ymgeisydd hefyd yn amlygu lle gallai bod angen mwy o wybodaeth er mwyn cadarnhau'r dadansoddiad.